# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 8fed o Fawrth 2016 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Wyn Jones (Cadeirydd), Ruby Williams a Barry Owen.

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc a'r Cynghorwr Sirol John Lumley.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Carys Morgan, Garym Roberts, Eiddwen Merritt, Gerallt Davies, Jocelyn Andrew, Garym Roberts a Wyn Evans .

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Chwefror a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:** Trafodwyd taliad y clerc ar ol i'r Cadeirydd wneud ymholiadau gydag Un Llais Cymru a phenderfynwyd godi'r tâl i £200 y mis. Aeth y clerc allan yn ystod y drafodaeth.

**Materion Cynllunio:** Dim.

**Talu anfonebau isod:**

£160.52 i Owen Llywelyn a dalodd gwmni '123-reg' am le ar ein gwefan ac hefyd yr enw 'henfynyw.org' am ddwy flynedd arall.

£220.00 Llogu Neuadd Goffa Llwyncelyn am y flwyddyn

**Ceisiadau am nawdd ariannol:**

Gofal mewn Galar £50.00

Teenage Cancer Trust £50.00

**Cyngor Sir Ceredigion:**

Pro Fforma Cysgodfannau a Seilwaith Bysiau.

O ganlyniad I adolygiad o'r seilwaith bysiau ar draws y Sir sy'n cynnwys cysgodfannau bws, llenwyd a dychwelwyd y ffurflen atodedig oedd yn ymwneud â'r seilwaith bysiau yn ein cymuned.

**Yr Arolygiaeth Gynllunio:**

Darllenwyd lythyr yn sôn am Deddf Cynllunio Cymru 2015, sef Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol lle y gwneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Penderfynwyd derbyn y llythyr fel gwybodaeth pellach.

**Medal Penblwydd y Frenhines yn 90 oed:**

Cynigwyd i'r Cyngor brynu'r medalau hyn i'w dosbarthu ond penderfynwyd nid oedd angen.

**Unrhyw fater arall:**
Dim.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.45.

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw’r 12fed o Ebrill.